Darpariaeth Barhaus Enghreifftiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen
Maes - Adeiladu (Blynyddoedd 1 a 2)

Cyfleoedd Dysgu Allweddol:

DM Dethol a defnyddio syniadau, offer a deunyddiau mathemategol priodol i ddatrys problemau ymarferol
DM Amcangyfrif maint mesur
DM Datblygu eu hiaith fathemategol ar draws yr ystod, a'i defnyddio yn eu chwarae rôl ac wrth gyfathrebu/siarad ag oedolion am eu gwaith
DM Cyflwyno eu gwaith ar lafar, yn ddarluniadol ac yn ysgrifenedig, gan symud ymlaen at ddefnyddio dulliau mwy ffurfiol o gofnodi pan fyddant yn barod o ran datblygiad.
DM Defnyddio amrywiaeth o ffyrdd o gynrychioli data a gasglwyd
DM Ymchwilio i batrymau sy'n ailadrodd a pherthynas a llunio rhagfynegiadau syml
ILLC/DIG Gwrando ar gyfarwyddiadau a'u cyflawni

ILIC/DIG Defnyddio iaith briodol wrth chwarae ac wrth gyfleu ystyr
ILLC/DIG Gwrando ar gyfarwyddiadau a'u cyflawni
ILIC Yn eu hesboniadau, eu disgrifiadau a'u naratifau, cynnwys manylion perthnasol a nodi'r hyn sy'n hanfodol
DG Datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, modelu, addasu a myfyrio
DG Defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac offer ar gyfer arbrofi a datrys problemau
DG Dylunio a gwneud cynnyrch a mecanweithiau syml
CD Myfyrio ar eu gwaith eu hunain ac eraill
DPChLIAD Arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd, gan gynnwys TGCh
DPChLIAD Datblygu'n feddylwyr a dysgwyr annibynnol.
DPChLIAD Canolbwyntio am gyfnodau hwy
DPChLIAD...teimlo'n ddigon hyderus i weithio a chwarae gyda phobl eraill
Gwerthfawrogi ffrindiau a dangos gofal ac ystyriaeth am eraill
DP Defnyddio a thrin amrywiaeth o offer

Adnoddau fel y bo'n briodol <u>e.e.</u>

- Blociau pren
- Knex
- Lego
- Meccano
- Gerau, liferi, pwlïau, moduron etc
- Ffigurau, adnoddau byd bach **<u>etc</u>**

Awyr agored

- Cewyll, planciau, tiwbiau, cwteri
- Briciau ysgafn
- Blychau
- Pibau plastig

- Camera digidol
- Clipfwrdd, offer ysgrifennu, adnoddau mesur etc
- Posteri, cardiau post
- Tâp masgio, tâp selo, llinyn, bandiau elastig etc
- Deunyddiau naturiol

Profiadau a Fwriedir

- Siarad, trafod, cwestiynu, rhannu, chwarae gyda'i gilydd, cydweithredu, arsylwi
- Cymharu, didoli, trefnu, cyfrif ac amcangyfrif
- Cymryd risgiau ac arbrofi ag adnoddau
- Pentyrru, adeiladu, creu, datrys problemau, darganfod sut mae deunyddiau'n cyfuno â'i gilydd
- Mesur, datgysylltu, cydbwyso;
- Gwneud cynlluniau, cofnodi syniadau.
- Ymfalchïo yn eu gwaith ac ennill hunanhyder ohono.
- Rhagfynegi deilliannau, trafod posibiliadau, profi, gwerthuso, adolygu ac ail-wneud
- Cynnwys manylion perthnasol mewn esboniadau
- Chwarae rôl, dychmygu

Cwestiynau:

- Tybed beth fydd yn digwydd os…
- Dywedwch wrtha i sut…?
- P'un ydych chi'n meddwl yw'r tŵr uchaf?
- Sawl 'bloc' rydych chi wedi ei ddefnyddio?
- Beth sydd wedi gweithio'n dda o'r blaen?
- Pa nodweddion byddwch chi'n eu cynnwys?
- Beth ydych chi'n meddwl sy'n sigledig?
- Pam rydych chi'n credu bod hyn wedi digwydd?
- Beth ydych chi'n ei hoffi? Ddim yn ei hoffi? Pam?
- Pam ddewisoch chi'n deunyddiau yma?

Sut gallwn ni wella hwn?

Geirfa Briodol

- Enwau siapiau 2D a 3D
- Iaith Mathemateg - rhifau (rhifolion a threfnolion), iaith safle etc
- Iaith disgrifio - mawr(mwyaf), bach(lleiaf), tal (-ach/-af), byr (-rach/raf, hir (hwy/hwyaf) etc
- Iaith cymharu - gwthio, tynnu, uchel, isel, yr un peth, gwahanol etc
- Enwau cyfarpar deunyddiau etc.

Geiriau allweddol e.e.

- Adeiladu, llunio, pentyrru, cyfuno, ychwanegu, gwneud, dylunio, torri, gludo, cadarn, cysylltu, olwyn, echel, cario/cludo, cydbwyso, creu, addasu, newid, gwella, dychmygu, gwaith tîm, cynllunio etc